Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Arwyddbost 30 mya i arwyddbost 20mya yng Nghymru

27 Ebrill 2023

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 13 Ebrill, pan wnaethoch ofyn:

> *I would like to know how much it going to cost to change every 30 mph signpost to 20mph signpost in wales*

Gellir gweld ein hymateb isod.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r **offeryn statudol** a gyflwynodd y newidiadau yn cyfeirio at gostau uniongyrchol ailosod arwyddion fel a ganlyn:

*"Mae'r costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r polisi yn ymwneud â'r gost o osod a chael gwared ag arwyddion a marciau ffordd. Cyfanswm y costau hyn yw £29.1 miliwn, ac maent yn cynnwys addasiad tuedd optimwm o 22% yn unol â chanllawiau atodol y Llyfr Gwyrdd ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae cost arwyddion yn cynnwys costau'r deunyddiau, gwaith peirianyddol a gorbenion. Bydd angen tua 30,000 o arwyddion newydd a 5,000 o bolion lle mae ffyrdd cyfyngedig yn ymuno â therfynau cyflymder eraill y ffyrdd. Bydd angen tua 2,300 o arwyddion newydd, gan gynnwys arwyddion ategol, i nodi eithriadau a fydd yn aros ar 30mya. Bydd angen newid 5,000 o arwyddion o amgylch ardaloedd ysgolion."*

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

Gall y wybodaeth hon fod yn destun newid, felly dylech hefyd gyfeirio eich cais at Lywodraeth Cymru drwy anfon e-bost i'r cyfeiriad canlynol: **Rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru**

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN